

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005:
Adroddiad y Pwyllgor (2) 08-05**

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad. Rydym yn croesawu'r hyn y mae wedi'i ganfod ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r wyth argymhelliaid a ddyfynnir o'r adroddiad gwreiddiol.

1.	<p>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gryfhau'r system rheoli prosiect sydd ganddi wedi'i sefydlu i arolygu'r broses paratoi cyfrifon 2005-06, gan gynnwys ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth yn Gyfan. Fe ddylai hefyd adolygu i ba raddau mae camau digonol yn cael eu cymryd gan gyrff unigol a noddir i ateb gofynion cau yn gynt ac i ystyried pa gamau ymarferol a ellid eu gweithredu i wella ansawdd cyffredinol y cyfrifon sy'n cael eu paratoi gan y cyrff hynny.</p>
	<p>Derbyn.</p> <p>Cafodd Bwrdd Prosiect ar Gyfrifyddu Adnoddau ei sefydlu ym mis Ionawr 2005. Mae arno aelodau o dimau paratoi cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad (gan gynnwys Cyllid y GIG) a chynrychiolwyr o blith staff un o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, staff Swyddfa Archwilio Cymru a staff Trysorlys Ei Mawrhydi. Fel rhan o Fenter Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, bydd y Bwrdd yn ehangu'i gylch gwaith yn y man ac yn mynd ati i ymdrin â chyfrifyddu ym maes Llywodraeth Leol. Cyfarfu'r Bwrdd yn fisol yn 2005 a bu'n goruchwylia'r gwaith llwyddiannus a wnaed i baratoi cyfrifon 2004-05. Ef hefyd sydd wedi bod yn rheoli'r gwaith datblygu y mae angen ei wneud er mwyn cau cyfrifon 2005-06 yn gynt, a bydd yn dal i gyfarfod yn fisol drwy gydol 2006. Am fod y Cynulliad yn cael cyflwyno cyfrifon yn ystod y toriad, nid ydym yn dilyn amserlen y Trysorlys ar gyfer cau pob agwedd ar y cyfrifon yn gynt, ond rydym yn anelu at gadw at ddyddiad cau terfynol y Trysorlys ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth Ganolog a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan.</p> <p>Mae cyfrifon y Byrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u hadolygu eisoes er mwyn sicrhau dulliau cyfrifyddu cyson ar draws y sector, ac mae sefydliadau'r GIG wedi cael gwybod am y dyddiadau cau newydd. Drwy'r cyfarfodydd rheolaidd sy'n cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a Phrif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, mae'r cyrff hynny'n gwybod bod gofyn iddynt gau'u cyfrifon yn gynt. Bydd mwy o ganllawiau am yr angen i gau'u cyfrifon yn gynt yn cael eu hanfon at bob corff a noddir cyn 31 Mawrth 2006.</p>
2.	<p>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu gweithdrefnau pwerus i sicrhau y bydd ei holl adrannau a ehangwyd yn cyrraedd y safon perfformiad talu gofynnol o 1 Ebrill 2006. Fe ddylai hefyd adolygu perfformiad y cyrff noddedig yn y maes hwn a chyhoeddi canllawiau arferion da ar brosesu taliadau er mwyn helpu i godi'r lefel perfformiad cyffredinol sy'n cael ei nodi.</p> <p>Derbyn.</p> <p>Bydd adolygiad llawn o berfformiad yr holl gyrff a noddir o safbwyt taliadau yn cael ei gynnal ym mis Ionawr/Mawrth 2006, a bydd canllawiau ar arferion da wrth dalu yn cael eu cyhoeddi er mwyn helpu i wella perfformiad yn hyn o beth.</p>

	<p>Byddwn yn mynd ati hefyd i roi hyfforddiant llawn i'r holl staff a fydd yn dod yn rhan o'r Llywodraeth ar y safonau perfformiad y mae'r Cynulliad yn eu disgwyl o safbwyt taliadau, gan sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r targedau y bydd disgwyl iddynt gyrraedd.</p>
3.	<p>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau fod systemau ariannol cynhwysfawr yn cael eu sefydlu i alluogi gwybodaeth sy'n seiliedig ar adnoddau i gael ei ddefnyddio o fewn gweithdrefnau rheoli a gwneud penderfyniadau. Dylai'r gwersi a ddysgir o'r gwaith datblygu sy'n digwydd yn y maes hwn fel rhan o'r prosiect uno gael eu rhannu gyda gweddill y cyrff a noddir gan y Cynulliad, i'w helpu i wella eu systemau ariannol a rheoli eu gwybodaeth hwy eu hunain. Hefyd dylai staff o fewn y cyrff noddedig, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad gael hyfforddiant ar sut i ddeall a defnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar adnoddau pan fydd ar gael yn gyflawn.</p> <p>Derbyn.</p> <p>Mae datblygiadau ym maes gwybodaeth reoli sy'n ymwneud â chredydwyr yn cael eu rhoi ar brawf ar hyn o bryd. Y nod yw rhoi'r datblygiadau hyn ar waith yn y Grŵp Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn gynnar yn 2006, ac ar draws yr holl Grwpiau erbyn mis Rhagfyr 2006. Mae datblygiadau ar y gweill hefyd i wella gwybodaeth am asedau sefydlog, dyledwyr a benthyciadau.</p> <p>Unwaith y bydd y datblygiadau hyn yn eu lle, bydd pawb a fydd yn eu defnyddio yn cael yr hyfforddiant priodol. Bydd y profiad a'r wybodaeth a geir wrth greu'r datblygiadau hyn ac wrth fynd ati i'w rhoi ar waith yn cael eu rhannu â'r holl gyrrff a noddir.</p> <p>Mae'r Adran Gyllid yn cynnig hyfforddiant eisoes ar Gyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, ac mae'n anelu, yn ystod y misoedd nesaf, at gynnig cyngor sydd wedi'i deilwra'n benodol at anghenion Unedau Busnes a Deiliaid Cyllidebau.</p>
4.	<p>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau fod y staff allweddol sydd eu hangen ar gyfer y broses paratoi cyfrifon yn parhau i roi blaenoriaeth amlwg i'r gwaith hwn yn yr wythnosau'n dilyn yr uno ar 1 Ebrill 2006, er mwyn peidio bygwth amserlen cau ynghynt y prosiect.</p> <p>Derbyn.</p> <p>Bydd staff y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n allweddol i'r gwaith o baratoi cyfrifon terfynol y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn uno â'r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes. Bydd Cyfarwyddwyr yr Adrannau priodol (yn rhinwedd eu swyddogaeth fel Is-swyddogion Cyfrifyddu) yn sicrhau dilyniant o ran staffio mewn perthynas â chyfrifon y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac yn sicrhau hefyd eu bod yn rhoi blaenoriaeth i baratoi'r cyfrifon.</p>
5.	<p>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu rheolaeth effeithiol a strwythurau rheoli ariannol i gefnogi'r Swyddogion is-Gyfrifo newydd. Fe ddylai hefyd gadw amlgrwydd gwariant ar swyddogaethau'r cyn gyrff noddedig trwy, er enghraift, ddadansoddiadau ariannol priodol o fewn ei gyfrifon adnoddau blynnyddol.</p>

	<p>Derbyn.</p> <p>Erbyn hyn, mae gan bob is-swyddog cyfrifyddu bwylgor llywodraethu corfforaethol ar lefel yr adrannau, ynghyd ag uned fusnes ar wahân, i'w cynorthwyo wrth iddynt arfer eu dyletswyddau fel swyddogion cyfrifyddu. Mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol y Cynulliad yn cael eu cynrychioli ar bob un o'r pwylgorau hyn. Mae aelod annibynnol ar bob pwylgor hefyd. Mae'r is-swyddogion cyfrifyddu wedi cael canllawiau cynhwysfawr ar egwyddorion llywodraethu corfforaethol; ar rôl y pwylgorau llywodraethu corfforaethol ar lefel yr adrannau; ac ar eu perthynas hwy â phrif bwylgor llywodraethu corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad.</p> <p>Ar gais y Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi bod yn cynnal 'gwiriadau' i edrych ar strwythurau llywodraethu a rheolaeth ariannol pob un o'r is-swyddogion cyfrifyddu er mwyn sicrhau bod y strwythurau hynny'n briodol ac yn ddigon cadarn. Ym mhob achos, roedd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn fodlon ar y strwythurau hynny. Bydd mwy o waith i sicrhau bod y strwythurau hyn yn ddigon cadarn yn cael ei gynnal ar ran y Prif Swyddog Cyfrifyddu o dro i dro.</p> <p>Bydd unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â'r hen gyrrff cyhoeddus a noddir yn parhau i fod yn amlwg. Bydd y systemau warws data sy'n cael eu datblygu yn fod i sicrhau hyn.</p>
6.	<p>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gorffori trefniadau rheoli asedau effeithiol o fewn ei gweithdrefnau rheolaeth, gyda chymorth hyfforddiant cynhwysfawr i staff perthnasol. Dylai hefyd ddynodi safon cyson cynllunio rheoli asedau trwy'r holl gyrrff a noddir, yn arbennig gyda golwg ar ystod a chynnwys cynlluniau rheoli asedau.</p> <p>Derbyn.</p> <p>Mae Gwerth Cymru wedi'i sefydlu er mwyn rhoi cyfeiriad strategol i'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn mynd ati i reoli buddsoddiadau cyfalaf. Bydd yn rhoi cymorth gyda'r gwaith cynllunio sy'n gysylltiedig â rheoli asedau.</p> <p>Rydym wedi ymgynghori â'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ynghylch canllawiau cynhwysfawr ar gynllunio ym maes rheoli asedau, ac mae'r swyddogion perthnasol wedi cael copïau ohonynt. Cafodd gweithdy ar gynllunio ym maes rheoli asedau ei gynnal ar 6 Ionawr 2006 ar gyfer y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac ar gyfer yr adrannau hynny yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am eu nodd. Roedd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan o'r gweithdy hwnnw. Byddwn yn gwerthuso canlyniadau'r broses ymgynghori a'r gweithdy, ac yn defnyddio'r canlyniadau hynny i lywio'r gwaith o gwblhau'r canllawiau ar gyfer y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar gynllunio ym maes rheoli asedau. Bydd y canlyniadau hefyd yn sail i ganllawiau a hyfforddiant y bwriedir eu darparu ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y nod yw cyhoeddi'r canllawiau terfynol erbyn mis Chwefror 2006 fan bellaf. Bydd cyngor a chanllawiau yn cael eu darparu yn 2006-07, ac wrth benderfynu ar eu natur ac ar bryd i'w cyhoeddi, byddwn yn ystyried unrhyw faterion sy'n codi o gynlluniau rheoli asedau y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar gyfer 2006-07.</p>

	<p>Bydd Cynllun Rheoli Asedau Cyffredinol yn cael ei baratoi ar gyfer y Cynulliad ar gyfer 2006-07.</p> <p>Mae Grŵp Strategaeth ar Eiddo Gweinyddol wedi cael ei sefydlu, ac mae System electronig Mapio Gwybodaeth (e-PIMS) yn cael ei mabwysiadu ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y broses hon yn sail i unrhyw gynlluniau i fuddsoddi mewn eiddo, ac i'w resymoli. Disgwylir i'r data a gesglir gael ei gofnodi ar e-PIMS yn gynnar yn 2006.</p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn adolygu sut y mae'n defnyddio ei hystad graidd, gan wneud hynny fel rhan o'r strategaeth adleoli gyffredinol ac fel rhan o'r broses o uno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Dylai'r argymhellion fod yn barod yn ystod mis Mawrth / mis Ebrill 2006, ond bydd y gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo wrth i ystadau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir ddod yn rhan o ystad y Llywodraeth.</p>
7.	<p>Dylai tîm Menter Gaffael Cymru o fewn Gwerth Cymru gwblhau'r rhaglen hon o wiriadau ffitrwydd caffael trwy'r cyrff a noddir gan y Cynulliad i gyd cyn gynted ag sy'n bosibl, a fod y meysydd i'w gwell a yn cael eu hadnabod gan y gwiriadau ffitrwydd a gwblhawyd hyd yma yn cael sylw yn sydyn. Dylai'r gwensi ehangach a danlinellwyd gan waith y Fenter, ac esiamplau o arferion gorau, gael eu gwneud yn gyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ehangu ei rhaglen hyfforddi bresennol i roi i'r holl staff sy'n ymwneud â chaffael y sgiliau angenrheidiol i wneud eu swyddogaethau, gan gynnwys gwybodaeth fanwl o'r rheolau cytundebol ynglyn â chaffael. Dylai'r adolygiad hwn o'r ddarpariaeth gael ei wneud hefyd o fewn Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac yn y corff noddedig.</p> <p>Derbyn.</p> <p>Hyd yn hyn, mae Gwerth Cymru wedi cynnal 26 o wiriadau ar briodoldeb prosesau caffael (PFC's) ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys naw gwiriad o'r fath ar draws y Cyrff Cyhoeddus mwyaf a Noddir gan y Cynulliad. Bwriedir cynnal gweithdy ar y gwiriadau hyn ar 21 Mawrth 2006 ar gyfer y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, a bydd hyn yn cwblhau'r rhaglen ar gyfer y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Bydd rhaglen o wiriadau ar briodoldeb prosesau caffael yn cael ei chwblhau ym maes Addysg Uwch hefyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, ac rydym yn ystyried pa mor ymarferol fyddai cynnal rhaglen o'r fath ym maes Addysg Bellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae rhaglen o'r gwiriadau hyn yn mynd rhagddi ym maes Llywodraeth Leol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi enghreifftiau o ganllawiau ar arferion da ac enghreifftiau o'r astudiaethau achos cysylltiedig sy'n deillio o'r gwaith y mae Gwerth Cymru wedi'i wneud, gan gynnwys 'Food for Thought' a'r Siarter ddiweddar, 'Opening Doors'. At hynny, mae adran adnoddau agored yn cael ei hagor ar www.buy4wales.co.uk er mwyn sicrhau bod y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael i bawb.</p> <p>Hyd yn hyn, mae rhaglen hyfforddiant agored Gwerth Cymru wedi darparu 74 o gyrsiau hyfforddiant ar gaffael, gan lenwi 1068 o leoedd. Mae 96% o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Mae'r rhaglen o gyrsiau byr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth</p>

	<p>06 wedi'i chyhoeddi, a bwriedir cynnal 15 o gyrsiau. Mae'r rhaglen arfaethedig yn ymdrin â meysydd pwnc sy'n amrywio o Egwyddorion Rheoli Prosiectau i Gaffael Cynaliadwy ac i Gaffael ar lefel y GE.</p> <p>At hynny, pedwar myfyriwr o'r Gogledd fydd y cyntaf i gymryd rhan mewn cynllun prentisiaeth ar gaffael sydd wedi'i sefydlu er mwyn hyfforddi gweithwyr proffesiynol cymwys ar gyfer y sector cyhoeddus. Y cynllun hwn, sy'n para blwyddyn ac a ddechreuodd ar 1 Medi, yw'r cyntaf o'i fath, ac mae'n ymdrin â meysydd megis prynu cyflenwadau, a thendro.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y rhanddeiliaid allweddol ar 6 Ionawr 2006 er mwyn datblygu a chyhoeddi cynllun strategol ar gyfer dyfodol y rhaglen hyfforddiant ar ôl mis Ebrill 2006. Ar y cyd ag aelodau'r grŵp hyfforddi a datblygu, aeth cynrychiolwyr Rheoli yng Ngorllewin Cyhoeddus Cymru (PSMW), y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS), Prifysgol Morgannwg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Meithrin Rhagoriaeth a'r maes gofal cymdeithasol ati i drafod yr anghenion posibl yn y dyfodol. Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredol a fydd yn deillio o'r trafodaethau hyn yn cael eu hanfon at y gymuned gaffael ehangach at ddibenion ymgynghori.</p>
8.	<p>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bwysio ar uwch reolwyr y cyrff sy'n derbyn grantiau (ar lefel Prif Weithredwyr neu Swyddogion Cyfrifo ble bo'n briodol) bwysigrwydd sicrhau fod cydymffurfio gyda holl ofynion rheoliadau ariannu Ewropeaidd.</p> <p>Derbyn.</p> <p>Ym mis Ionawr 2006, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at holl Swyddogion Cyfrifyddu a Phrif Weithredwyr y cyrff cyhoeddus hynny sy'n cael cyllid o'r cronfeydd strwythurol, gan bwysleisio'r angen iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau'r CE a nodi mai eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod eu sefydliadau hwy yn gwneud hynny. Mae Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn ysgrifennu i'r un perwyl at yr holl sefydliadau eraill sy'n noddi prosiectau. Mae WEFO hefyd yn paratoi pecyn i'w anfon at noddwyr yn eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau ac yn rhoi arweiniad iddynt ar sut i ymgymryd â'r cyfrifoldebau hynny.</p> <p>Mae WEFO yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â rheoliadau'r CE, yn arbennig felly mewn perthynas â materion ariannol. Mae WEFO yn cymryd y tri cham a ganlyn mewn ymateb i ganfyddiadau archwiliadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - nid yw unrhyw wariant anghymwys yn cael ei gynnwys wrth gyfrifo faint o grant sydd i'w dalu i'r noddwr. O ganlyniad, dim ond gwariant cymwys sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'r CE; - os gwelir bod problemau rheolaidd yn codi gydag unrhyw noddwyr, mae WEFO yn dwyn sylw at y problemau hynny ac yn cymryd y camau priodol - naill ai yn ysgrifenedig neu drwy ymwelliadau gan y timau monitro, archwilio neu arfarnu; - mae'n dwyn sylw at unrhyw faterion sy'n codi'n rheolaidd ymhliith y noddwyr (e.e. materion yn ymwneud â chymhwyster neu â'r llwybr archwilio) er mwyn mynd ati i gyhoeddi canllawiau yn eu cylch. Yn

ddiweddgar, mae WEFO wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar arian cyfatebol sy'n cael ei roi mewn ffyrdd eraill, ar orbenion ac ar gadw dogfennau.

Mae wedi sefydlu cronfa ddata o faterion sy'n codi yn ystod archwiliadau er mwyn iddi fedru casglu'r wybodaeth hon ynghyd.

Mae cyswllt wyneb yn wyneb â'r noddwyr yn ffordd arbennig o effeithiol o sicrhau bod cyn lleied o broblemau â phosibl yn codi. Mae WEFO, felly, yn sicrhau bod y tîm monitro Erthygl 4 yn ymweld o leiaf unwaith â phob noddwr. Mae'r tîm yn gyflawn bellach (13 o aelodau o staff), ac mae wedi ymweld â bron 300 o'r noddwyr prosiectau.

Unwaith y bydd y CE wedi penderfynu'n derfynol ar y gofynion ar gyfer cau'r rhaglenni cyfredol, bydd WEFO yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol yn dechrau mewn da bryd.